Dwy o

# GERDDI

1. CYFLAWN A CHYWIR

## HANES

AM

# SARAH SHARP

Yr hon a ddioddefodd yn *Nhyburn*, gerllaw *Llundain*, yn y Flwyddyn 1771, ar Ddrwg-dyb o ddwyn tri o Lwyau Arian oddiwrth ei Mheiſtres. Ac hefyd fel y daeth yn fyw drachefn wedi at y Mhed-dyg, ynghyd â'i Haraith wrth y Pren dioddef,

Yn Ail Diriſau y *Pren Almon* wedi ei chymeryd o Lyfr Solomon Pregethwr 12 bennod.

Ar ſee the Building, neu Gwel yr Adeilad.

Argraphwyd yn y *Mwythig* gan W. WILLIAMS.

COLLEGE, S. WALES & MON. LIBRARY

Cyflawn a chywir Hanes am *Sarah Sharp*,

# O ISLINGTON.

GYmdeithion glân o fân i fawr,
Rho'wch Gluſt i'r hyn a ro'w'd ar lawr;
O's ſlyri hyn o 'Stori hyll,
Dagrau rai heb gel a gyll.

Un *Sarah Sharp* o Iſlington.
Teſtun triſt yr Hanes hon;
Yn Forwyn fu i Ladi lân,
Tros bedair Blynedd heb wahan.

Yn Forwyn ffyddlon burion bu,
Gan fyw yn gywir ac yn gu:
Ond gwneir a fynnir yn y byd,
Tynged hen fydd Ben o hyd;

Tair Llwy Arian aeth ar goll,
A'i Mheiſtres hyll r fwyſtrodd oll;
Tair Llwy Arian, ebe hi,
A gollais, 'rw'yn dy ſiarſo di.

F'attebai'r Ferch, O Feiſtres fwyn,
Pe bawn i 'n marw er eu mhwyn,
Yn wir yr ydwyf heb eu gwel'd,
Wedi eu goſod ar y Seld.—

'Be'i

'Be'i Mheiſtres, Dos â hwy i glawr,
On'd ê, yn hy rwyn tyngu 'nawr,
Tydi gei Gell mewn Caſtell caeth,
Ni chymra'i'n ffwlio gan fy ngwaeth.

Am Gwnſtab hi ddanfonai'i Gwas,
A hi a ro'w'd mewn Carchar cas;
Hyd ddydd y Seſſiwn yno bu,
Ac yna fe a'i treiwyd hi.

Ei Mheiſtres hyll a dyngodd hyn.
Mai hi oedd y Lladrones ſyn;
A'r Juri'n euog Rôg a'i rhoes,
A bwriwyd hi i odde'r Loes.

Ar fyrr daeth y Diwrnod du,
Dydd Marwolaeth Genaeth gu;
A hi a ddygwyd at y Pren,
A Chri y Bobl aeth i'r Nen.

O'r Pen i'r Traed yr oedd mewn Gwyn,
Golwg hardd a thêg oedd hyn:
Hi ſafodd, ac a dd'wedodd, Clywch,
Ar fy 'Stori all gwrandewch.

## Ei HARAITH
## Wrth y Pren Dioddef.

'RW'yn haeru hyn o Ble o'ch bla'n,
Oddiwrth hyn, fy mod yn lân:

Ac yn myn'd i Angeu du,
O achos Llw Anudon hy.

'Rw'yn deisyf arnoch, fawr a mân,
Rhag Anudon byddwch lân.
Eich Corph a'ch Henaid na ddis hewch,
A Llw Anudon byth na wnewch.

Wrth y Gyfaith yno bu,
Dair *M*unud dros yr Amser sy',
Ac yna torrwyd hi i'r lawr,
A chariwyd hi at Ddoctor mawr.

Fe glow'd y Drws, fe aethpwyd ffwrdd,
A hi yn farw ar y Bwrdd;
Ond pan y dychwelasant, clyw!
Wele'r oedd hi 'n Fenyw fyw.

Fe synnodd y Meddygon mâd,
A gollyngsant beth o'i gwa'd;
*M*ewn Gwely twymn dros dro bu,
Ac felly fe a'i gwellwyd hi.

Y Meddyg penna', ddedwydd Ddyn,
A gym'rodd Ofal am y Fun;
Cymmwynasgar fu efe,
Ac a fynnodd iddi Le.

Ar hen Nadolig, Amser mawr,
Fe ga'w'd hyn o wir i glawr;
Y Llwyau gafwyd mewn rhyw le,
A'r Swn r dannwyd trwy y Dre'.

Yn wallgof 'na'i Meiſtres aeth,
Eb' hi, Fy Enaid i ſydd gaeth;
Hi roiſaw Fil o Bunnau'n ſyw,
Am godi'r Ferch o farw i fyw;

Cennad aeth, ar hyn o Bryd,
Trwy y Ddinas oll i gyd;
Mil o Bunnau, dyma'r Cri,
Oll a ro'ir i'w Thylwyth hi.

A'r Swn a ro'w'd i'r Meddyg mawr,
Ynte' a ryfeddodd 'nawr:
Be fe, Mae Duw o'i Hochor hi,
A thynged dda i'w chanlyn ſy'.

Ac yna y danfonodd e',
Atti'n llon i'w dwyn o'i Lle;
At ei Mheiſtres a'w'd a'r Fun,
Hitheu a ddaeth atti'i hun.

Deg a deugain Punt, o'i bodd,
Y Flwyddyn, hi a roes yn Rhodd;
Gan dd'wedyd, Hyn yw'm Hanrheg ffri,
I hon a'i Hetifeddion hi.

Mae *Sarah Sharp* yn awr yn byw,
Mewn Llewndid da, yn ofni DUW;
Gan roi i'r Tlawd o Gynnedd lân,
Cymmerwch Rybudd fawr a mân.

Ar ſee the building, neu Gwel yr Adeilad.

Rwy 'n gweled er ei gwilio fy Adeilad,
Yn adfeili nid diofal i mi,

Hyderu ar Dy dararol mewn agwedd
Mor diffy giol im curiol oeri,
Gan fod llifeiriant gwynt ag od,
Fel Cowri yn Curro iw lwyr ddifurio
Ai Ddydd i baffio a bwyfodd at y nod
Mewn Annedd gwell o hono rwi'n dwys ddy-
muno Mod
Duw dod oth Lys Raglyddus Glod
Drwy faddeu 'ngham-wedd dy Drugaredd
Y Nydd fy niwedd mwy rhinwedd dan yr Rho
Na mil o Aur mlynion mewn Eigion cyrrion Cod
Fy mhabell hono oi mebyd oedd drefnus
Hwylus olud dda [illegible] dd wchder
Cawg Aur a llinyn [illegible] ai merched Cerdd
Fel organ fawl eurgoeth Bleffer
Nid oes dim hoffder mwynder moes,
I mae'r ffenestri yn dallaidd dwllu
Ai holl haelioni yn llwyr drueni a droes,
Fe bylodd fwn y malu fy meini' mrannu meo's
Trwm loes du ffrewyll am deffroes
Gan fod fy Annedd-dy ai ben yn Crynnu
Ymron Gwasgaru a chwedi ymgrymu n groes
Ai furie ai gaere'n gwyro i lwyr ddiefuddio foes
Rwy n gweled y Pren Almon ai gynnydd
Flodeu gwnion yn gynar addfedd,
Mae 'r fwyall ddiball ddychryn yn barod,
Ar ei wreiddyn arwiddol dynged
Y daw Tragwyddol lwyddol Law
Ar fyrr iw dorri oi lawn haelioni
Ag yno i gyrchu o garchuar pridd a braw

Lle 'i'r erys yn llwyr oeredd i Anrhydedd dan y Rhaw.
Ni ddaw er bendith gwlith na Gwlaw,
I ail flag uro dan flodeuo
Ai frig i ddeilio yn ddilys uwch ei law
Yn fwrth ir fan llei fyrthio rhaid iddo drigo draw
Ag yno oi wag Annedd ni chyfyd,
Yn wych hafedd och ofyd feddwl
Hyd Ddiwrnod fowrglod f Arglwydd pan ddel
Mewn galu hylwydd i ... fanwl
Llei bydd Pob gweithred yn ddi gudd,
O flaen yr Ustus Cyfion Cofus
Ni thyccia Efgus drygionus flawtus ffydd
Gwae r wyneb a geir yno yn duo graena grud
Llwyr brydd Alarus ddigus Ddydd,
Pan fyddo 'r hollfyd ai fowredd hyfryd
Yn Dan dychrynllyd ai lendyd yn ddi-ludd
Gan wres yn diddim doddier maintiw ferchi fydd
Wrth hyn o araith hynod mae'n amser
I mi 'mofod am oefal Ddinas
I ffoi rhag llid a phower y gelyn
Frad ysgeler dwys gilwg atgas, ( Byd
Mae'n bry Am Ras i roi fy mryd ( Cnawd
I lawn gydnabod fy Anheilyngdod ( Cythrael
O gyfgu gormod dan bechod yn y byd
Trwy goleddy Tri gelyn y bum iw calyn Cyd
Om Cryd Rwy'n glynu byth mewn glyd,
Am bur ym wared om Caethiwed,
At Graig fy Nodded fwyn addas af o hyd
Gwyr feddyg a gar fadde fy holl gamwedd i gyd.
Tragwyddol oesol Jesu Fab Breiniol,

A fu in prynnu pur union gariad,
Cyfryngwr Rhannwr rhinwedd affynnon,
Y Drugaredd dra gwrol geidwad,
Clyw fi mewn sadwedd groywedd gri,
Yn sad ddeifyfu am nawdd i Anneddu,
Y mysg dy Deulu da dilys Freiniol Iri,
Lle'ngolwg llu Angyledd mewn rhiuwedd fwy na ffri
Dwg di wrth raid un Duw a Thri,
Dy was ogyftydd i lawn lawenydd,
Caerfalem newydd hoff winwydd ffrwythydd, rhi
Da diddan yw diddanwch ei thegwch harddwch Hi.
Mae'r Ddinas hon mor fanctedna cheiff,
Ond golwy puredd ympirio iddi,
A minne'n ddi:wahanieth mewn tomen,
Lygredigaeth yn dygyn Soddi,
Gwellhau mewn Bucheda glir wedd glau,
Nid ydwyf etto yn medrn arno
Ond llawn 'wlly fio 'n llefol ufuddhau,
Fy nwydau fydd anhydyn Gnawd Cyndyn yn,
Cwdlhau Ni ddichyn driddin brau ( naghau
Un ddyled, ddiwyd heb gyfrwyddyd
Dy rafo ysbryd Dduw hyfryd I ddyfrhau
Y Galon galed anial anhawdd ei meddal-hau
Gen Duw Tragwyddol allu dal fi
Ath ras i fynu yn fy Einioes egwan
A Dyro Jechydwriaeth im Rhan
Yn Nydd Marwoleath Mawr elw gwiwlan
Fy llenn i garchar Daiar denn
Ar fyrr a fwrrir o Jefu Ffiftir
Yn Nydd y Frwydir ddifrodus Cudd fy mhenn
Dydi yn ddry l oth wirfodd a n prynod i ar y prenn
I Nenn Baradwys wiwiwys Wenn
O derbyn f Ysbryd i rwydd gyrhaeddyd
Ail fywiol fowyd dwys wnfyd a di Senn
Boed fail fy Adeilad yno rwy 'yn Dymuno Amen.

OWEN GRIFFYDD.

UNIVERSITY ... SALESBURY LIBRARY

*D.*

YN fy nghefn, mae gwewur yn rhoi arwydd delur dwus
Ynghorph i gyd yn, Crynnu am Calon, bach tan bwus
A minna yn, diodde iddi yr Acffis ydyw'n hu
Rhoes lawer un, i orwedd yn, llawr y ddauer ddu
C. Fe aeth hynny yn orthrwn geni fod arna i'r fath fai
Er imi Gosbi bigad y rwi yn pardynu rhai
Llaw forwyn wyf i'r Angau fy yn difa llawer Dun
Fe heil yr holl Frenhinoedd oi Llyfoedd bod ag un
*D.* Ond mawr na roi-ti genad i ymgomio digrin bach
A Ryddid i mi rodio am Corph i gyd yn iach
Mi ffeiriwn i'r oferedd a'r ffoledd fynt a fu
Mewn Llann a phob Ceolleidfa er llonned y fee 'r llu
C. Pydfawn i yn rhoi itti genad i rodio hud y Fro
Ni chofit mo'th addewid Gollyng t fi dros go
Di eit yn ffol oferwr tra byddit yn y Bud
Am hynny mi'th rhodi orwedd mewn dauer fyddarfud
*D.* Pydfawn i wr Bonheddig a Chini Bywer mawr
Ni ddoi ti i'r fan lle byddwn nam llys i rodio'r llawr
Cawn genit lonydd enud a rhyddid yn y Bud
Ni roi ti mona i orwedd mewn Dauer fydder fud
*C.* Ni ffriffiwn yn dy Bywar a'th wychdar ar dy farch
Ni chei ti geni am hynnu un gronun mwy o barch
Mi'th rown di yn gwla gelach i orwedd yn dy fedd
I mado a'th holl reiolti mi eltrwn liw dy wedd
*D.* Wrth glywed dy eiriau digllon mae nghalon yn gwunha
My fi fy'n dyfal nychu nid alla i hir barhau
Ar Dduw mi ro fy ngweddi tra byddw i byw 'n Bud
Cyn imi fynd i'r ddauer i orfedd ar fy hud
*C.* Os wyti yn ddyn 'Difeiriol da fuddiol yw dy waith
Cei fund i Deurnas Nefol Dedwyddol yw dy daith
I Gwmni Duw 'n gariadus yn reunus iawn dy wedd
Er bod dy Gorph yn gorwedd yn bryddedd yn y Bedd

*Englyn i William Jones Y Baledwr*

GWILIM fy'n difun i Daith ——— a'r Llyfra
Iw'r llafur mwun odiaith
Neu ar doan fab Joan ai iaith,
Dasgodol iw ddyfgeidiaith H. E, y Gof ai Cant.

SALESBURY LIBRARY